

Polisi ar ymateb i bryderon systemig difrifol am berfformiad rheolydd statudol

Mai 2024

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r PSA wedi ymrwymo i hybu iechyd, diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r cyhoedd yn unol â'n cylch gwaith statudol. Felly, rydym yn cymryd unrhyw bryderon am berfformiad y rheolyddion iechyd a gofal dan ein trosolwg o ddifrif.
- 1.2 Diben y polisi hwn yw nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny sy'n awgrymu neu'n darparu tystiolaeth o fethiant systemig. Ni allwn fynd i'r afael â phryderon am achosion neu benderfyniadau unigol o dan y polisi hwn. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn rhoi'r polisi hwn ar waith os gwelwn dystiolaeth neu batrymau mewn achos unigol sy'n awgrymu methiant systemig, neu lle mae pryderon unigol yn awgrymu methiannau systemig fel arall.

2. Beth ddylid ei wneud cyn codi pryder gyda'r PSA?

- 2.1 Cyn cysylltu â'r PSA i godi pryderon byddem yn disgwyl y byddai ymgais wedi'i gwneud i godi pryderon gyda'r rheoleiddiwr (neu reolyddion) dan sylw. Bydd gan y rheoleiddiwr ei broses ei hun ar gyfer ymateb i bryderon, ac yn aml dyma fydd y ffordd gyflymaf i unioni materion.
- 2.2 Rydym yn deall y bydd sefyllfaoedd lle teimlir nad yw'n bosibl codi pryder yn uniongyrchol gyda'r rheoleiddiwr cyn dod i'r PSA. Byddwn yn ystyried y rhesymau dros beidio â gwneud hynny'n ofalus cyn dod i benderfyniad ynghylch a allwn fwrw ymlaen â mater. Mae'n fwy tebygol y byddem yn gweithredu pan fo rheswm i gredu (a) y byddai'r rheoleiddiwr yn cuddio camwedd neu gamymddwyn (b) y byddai'r unigolyn yn cael ei drin yn annheg pe bai'n codi'r mater gyda'r rheoleiddiwr neu (c) nid yw'r rheoleiddiwr wedi mynd i'r afael â'r materion er iddynt gael eu dwyn i'w sylw.
- 2.3 Cysylltwch â concerns@professionalstandards.org.uk os oes pryderon yr hoffech eu hadrodd i ni.

3. Chwythu'r chwiban

- 3.1 Gall pryderon gael eu dwyn i sylw'r PSA gan weithiwr i un o'r rheolyddion sy'n credu ei fod yn gweithredu fel chwythwr chwiban. Mae gweithiwr yng nghydestun Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn cynnwys contractwyr, hyfforddeion, staff asiantaeth a'r rhai sy'n gweithio o dan contract cyflogaeth.
- 3.2 Dylai unrhyw un sy'n dymuno codi pryder gyda ni yn y cyd-destun hwn geisio cyngor cyn gwneud hynny. Nid ydym yn gorff rhagnodedig ar gyfer derbyn

datgeliadau gwarchoddedig fel y nodir yng Ngorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (personau rhagnodedig) 2014 ac mae'n bwysig bod y sawl a allai chwythu'r chwiban yn deall canlyniadau hyn yn ei amgylchiadau ei hun. Mae'r elusen Protect yn cynnig cyngor cyfreithiol i chwythwyr chwiban.¹

4. Cyfrinachedd

- 4.1 Rydym yn annog y rhai sy'n codi pryderon gyda ni i wneud hynny mor agored ag y teimlant y gallant, gan y bydd hyn yn ein galluogi i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol yn haws. Bydd y PSA yn gwneud ei orau glas i ddiogelu cyfrinachedd y rhai sy'n codi pryderon gyda ni. Ni fyddwn yn datgelu pwy yw rhywun sy'n codi pryderon gyda ni heb eu caniatâd oni bai bod angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith, er enghraifft, o dan orchymyn Llys perthnasol, neu mewn amgylchiadau lle credwn fod risg o niwed i'r sawl sy'n codi'r pryder neu eraill.
- 4.2 Os codir pryderon gyda ni'n ddiennw, neu os gwrthodir caniatâd i ddatgelu hunaniaeth, byddwn yn penderfynu sut i fynd ati i geisio cyngor cyfreithiol lle bo'n briodol, a chan ystyried budd ehangach y cyhoedd. Os bydd sefyllfa'n codi lle na allwn ddwyn mater yn ei flaen heb ddatgelu pwy yw'r person sydd wedi codi pryderon gyda ni, byddwn yn trafod hyn gyda nhw.
- 4.3 Pan fo pryderon am ddiogelwch y person sy'n codi pryderon gyda ni, neu ddiogelwch ei gydweithwyr, byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau bod cymorth priodol ar gael.

5. Sut bydd y PSA yn rheoli datgelu pryderon?

- 5.1 Os codir pryderon gyda'r PSA sy'n awgrymu methiannau systemig ar ran y rheoleiddiwr, bydd rheolaeth yr ymateb gan gynnwys unrhyw gamau dilynol yn cael ei arwain gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Dim ond grŵp bach o staff fyddai'n cymryd rhan wedyn a byddai cyfyngiadau ar waith o ran mynediad i hunaniaeth y sawl sy'n mynegi'r pryderon ac unrhyw ddogfennaeth ddilynol.
- 5.2 Yn dilyn derbyn gwybodaeth byddwn yn sefydlu yn gyntaf fod y materion a ddatgelwyd yn dod o fewn ein cylch gorchwyl. Efallai y bydd sefydliad arall mewn gwell sefyllfa i ymateb.
- 5.3 Unwaith y bydd y PSA wedi sefydlu bod y pryderon a godwyd o fewn cylch gwaith, cynhelir asesiad risg a fydd yn sail i'r penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y bydd y PSA yn eu cymryd. Yn benodol, bydd y PSA yn ystyried:
 - Pa mor gadarn yw'r wybodaeth honno i gefnogi'r datgeliad?
 - Pa ymholiad neu wybodaeth bellach fydd angen ei wneud i gadarnhau'r datgeliad a wnaed?
 - Pa mor debygol yw hi y bydd y cyhoedd, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, cyflogwyr ac unigolion cofrestredig yn cael eu heffeithio os gellir cadarnhau'r datgeliad?

¹ www.protect-advice.org.uk sef Public Concern at Work gynt

- Pa mor ddifrifol fyddai'r effaith ar y cyhoedd, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, cyflogwyr ac unigolion cofrestredig os gellir cadarnhau'r datgeliad?
- A yw'r rheolydd yn ymwybodol o'r maes hwn sy'n peri pryder ac eisoes yn gwneud gwelliannau angenrheidiol?

O ganlyniad i'r asesiad risg gellir gwneud un o bedwar penderfyniad.

Peidio â chymryd camau a chau'r mater

- 5.4 Ni ellir penderfynu ar unrhyw gamau pellach am nifer o resymau, er enghraifft oherwydd gall y PSA fod yn hyderus bod y rheoleiddiwr yn ymwybodol o'r mater a'i fod eisoes yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i ddatrys y mater. Bydd y sawl a fynegodd bryderon yn cael ei hysbysu'n ffurfiol o'r penderfyniad hwn. Gall y PSA ofyn i'r rheoleiddiwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r PSA am y camau y mae'n eu cymryd a'r effaith y mae'r gwelliannau'n ei chael ar berfformiad.

Chwilio am ragor o wybodaeth

- 5.5 Os bydd angen rhagor o wybodaeth bydd y PSA yn gofyn am hyn yn ysgrifenedig. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gynnal sgwrs ffôn, cyfarfod ar-lein neu gyfarfod wyneb yn wyneb â'r sawl sy'n cyfeirio pryderon atom. Yn seiliedig ar y wybodaeth ychwanegol hon bydd asesiad risg pellach yn cael ei gynnal a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y camau nesaf y bydd y PSA yn eu cymryd. Gall y broses hon ddigwydd fwy nag unwaith, nes bod y PSA mewn sefyllfa i wneud penderfyniad gwybodus.
- 5.6 Os oes angen rhagor o wybodaeth gan y rheolydd, bod angen i'r PSA ddatgelu pwy yw'r sawl sydd wedi codi pryderon gyda ni er mwyn ei chael, byddwn yn ceisio eu caniatâd i wneud hynny. Os gwrthodir caniatâd byddwn yn ystyried ein safbwynt fel y disgrifir ym mharagraff 4.2.
- 5.7 Os rhoddir caniatâd byddwn yn ysgrifennu at y rheoleiddiwr yn gofyn am y wybodaeth angenrheidiol. Byddwn yn glir ynghylch y rheswm dros y cais, gan gysylltu ein cais â'r datgeliad a wnaed i ni a chanlyniad yr asesiad risg cychwynnol. Unwaith y bydd y wybodaeth hon wedi dod i law byddwn yn cynnal asesiad risg pellach a fydd yn sail i'n penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r mater ac os felly sut.

Symud y mater yn ei flaen fel rhan o'n proses adolygu perfformiad

- 5.8 Mae'n bosibl y bydd modd i'r PSA fynd â'r mater yn ei flaen heb ymchwiliad ffurfiol, gan ddefnyddio un o'n prosesau craffu sefydledig i benderfynu a oes tystiolaeth i gadarnhau'r datgeliad. Gall hyn fod yn wir pan nad yw'n ymddangos bod y materion a godwyd yn peri risg uchel i'r cyhoedd, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, cyflogwyr a chofrestryddion, ond gallent effeithio ar berfformiad rheoleiddiwr yn erbyn y Safonau Rheoleiddio Da. Gall hefyd fod lle mae risg wedi'i nodi, ond mae rheolydd yn ymwybodol o faterion ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Byddai unrhyw ganfyddiadau'n cael eu hadrodd drwy'r adolygiad perfformiad blynyddol, lle byddwn yn ystyried y pryderon penodol a godwyd gyda ni.

Lansio ymchwiliad

- 5.9 Os bydd aelod o'r Uwch Dîm Rheoli sy'n arwain yr adolygiad o'r farn bod angen ymchwiliad, ymgynghorir â'r Adran Iechyd Berthnasol a chyfeirir argymhelliad i'w gymeradwyo gan y Tîm Arwain Gweithredol. Rhoddir gwybod i'r Bwrdd am y penderfyniad hwn.
- 5.10 Byddwn yn hysbysu'r rheoleiddiwr yn ysgrifenedig a'r sawl a fynegodd bryderon gyda ni. Bydd cylch gorchwyl ymchwiliad yn cael ei benderfynu gan y PSA ond bydd yn cael ei hysbysu gan y datgeliad a wneir i ni. Bydd y cylch gorchwyl fel arfer yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan gyda datganiad byr i'r wasg.
- 5.11 Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi dod i ben bydd y PSA yn cyhoeddi ein hadroddiad a datganiad i'r wasg ar ein gwefan. Byddwn yn anfon copiâu o'r adroddiad at y sawl a fynegodd bryderon gyda ni, y rheoleiddiwr, yr Adrannau Iechyd ym mhedair gwlad y DU, a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

6. Cyfathrebu â'r person sawl a fynegodd bryderon gyda ni

- 6.1 Bydd y PSA yn rhagweithiol wrth ddarparu diweddariadau i'r sawl a fynegodd bryderon gyda ni ar bob cam:
- Tra byddwn yn dod i farn am y camau y byddwn yn eu cymryd yn dilyn y datgeliad
 - Pan fyddwn wedi gwneud penderfyniad am y camau i'w cymryd
 - Tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo
 - Cyn cyhoeddi adroddiad.
- 6.2 Bydd y PSA yn darparu enw cyswllt a manylion cyswllt i'r unigolyn hwnnw fel bod pwynt cyswllt allweddol yn y PSA. Bydd diweddariadau yn canolbwyntio ar y cam a gyrhaeddwyd a'r gweithgareddau sy'n digwydd, ond ni fydd yn darparu unrhyw wybodaeth am y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg na'r canlyniad, cyn cyhoeddi'r adroddiad.

7. Llywodraethu gwybodaeth

- 7.1 Os derbynnir ceisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, bydd y rhain yn cael eu hystyried gan gyfeirio at rwymedigaethau'r PSA o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2016 a Deddf Diogelu Data 2018.

8. Cwynion

- 8.1 Os derbynnir cwyn am ein dull o ymdrin â phryderon, ymdrinnir â'r rhain o dan ein polisi cwynion corfforaethol.

9. Hanes adolygu a diwygio

- 9.1 Dylid adolygu'r polisi hwn yn flynyddol o'r dyddiad cyhoeddi.

Rheolaeth Fersiwn

Nid yw dogfennau a argraffwyd wedi eu rheoli. Mae'r ddogfen hon yn ddilys ar y diwrnod y'i hargraffwyd yn unig.

Fersiwn	Statws	Dyddiad Cwblhau
1.0	Cymeradwywyd	02 Ebrill 2024